Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y cynllun ymadael yn wirfoddol
*17/04/2012*

Annwyl

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 23 Mawrth. Rwyf am ateb bob rhan o'ch cais yn eu tro isod.

1. **Faint o staff diogelwch a gyflogwyd gan Gomisiwn y Cynulliad yn 2009-10, 2010-11, 2011-12 a beth yw nifer arfethedig y staff diogelwch erbyn diwedd 2012-13?**

   Dyma nifer y staff diogelwch a gyflogwyd ar y dyddiadau isod yn 2009-10, 2010-11, 2011-12:

| Dyddiad | Nifer | FTE (cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|
| 31 Mawrth 2009 | 57 | 56.43 |
| 31 Mawrth 2010 | 61 | 60.73 |
| 31 Mawrth 2011 | 50 | 49.43 |
| 31 Mawrth 2012 | 62 | 59.38 |

   Cyllidebwyd ar gyfer 64.01FTE o swyddi diogelwch yn 2012-13. Mae'r gwahaniaeth rhwng hyn a'r ffigur ar gyfer 31 Mawrth 2012 i'w briodoli i'r swyddi gwag a fydd yn cael eu llenwi ar ôl cwblhau'r broses recriwtio.

2. **A adawodd unrhyw staff diogelwch yn 2010-11 fel rhan o gynllun diswyddo gwirfoddol? Os felly, faint?**

   Gadawodd saith o swyddogion diogelwch yn 2010-11 fel rhan o gynllun diswyddo gwirfoddol. Yn ogystal â hyn, gadawodd saith swyddog diogelwch yn 2011-12 fel rhan o gynllun diswyddo gwirfoddol a bydd un yn gadael yn 2012-13 er, oherwydd rhesymau cyfrifyddu, dangoswyd y costau perthnasol yn 2011-12.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

Cyflwynwyd y Cynlluniau Ymadael yn gynnar i ganiatáu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru fodloni gofynion y Pedwerydd Cynulliad a chyflawni amcanion strategol Comisiwn y Cynulliad drwy:

- ganiatáu i ni ymateb i'r newidiadau yn y sgiliau sydd eu hangen arnom;
- creu gweithlu mwy effeithlon;
- hwyluso newid sefydliadol;
- arbed arian ac osgoi'r costau ychwanegol sydd ynghlwm wrth ymdopi â phrinder sgiliau.

Erbyn 2014/15, bydd y cynllun a gyflwynwyd yn 2011/12 yn arbed £304,734 y flwyddyn.

**3. A gyflogwyd rhagor o staff diogelwch ers hynny ac, os felly, pam?**

Rydym wedi penderfynu y bydd anghenion diogelwch y Cynulliad yn y dyfodol yn galw am lefelau staffio o 64 (FTE). Mae amodau a thelerau'r swyddi a gafodd eu llenwi ers cyflwyno'r cynlluniau diswyddo yn fwy hyblyg na swyddi'r staff a adawodd. Bydd yr hyblygrwydd ychwanegol yn yr amodau a'r telerau newydd yn ein helpu i sicrhau y gallwn fodloni gofynion busnes y Pierhead a'r Senedd. Er enghraifft, bu'n rhaid cau'r Pierhead ambell benwythnos yn y gorffennol gan fod yr amodau a'r telerau bryd hynny'n golygu nad oeddem yn gallu sicrhau bod digon o swyddogion diogelwch yn gallu gweithio oriau goramser. Mae'r amodau a'r telerau newydd yn golygu na fydd perygl i hyn ddigwydd eto ac un fantais arall yw y byddwn yn llawer llai dibynnol ar oriau goramser a'r costau cysylltiedig, gan arbed £130,000 y flwyddyn. O ganlyniad, fe welwch mai dim ond cynnydd bychan iawn sydd yn y gost ar gyfer 2012-13 o'i chymharu â'r gost ar gyfer 2009-10 er bod cynnydd yn nifer y staff diogelwch (gweler y tabl yng nghwestiwn 5).

**4. Beth oedd cost y taliadau diswyddo i staff diogelwch?**

Dyma gyfanswm y costau untro'n gysylltiedig â thaliadau diswyddo i staff diogelwch yn ystod y ddwy flynedd:

| **Blwyddyn** | **£** |
|---|---:|
| 2010-11 | 164,226 |
| 2011-12 | 353,016 |

**5. Beth oedd y gost o gyflogi staff diogelwch yn 2009-10, 2010-11 a 2011-12, a beth yw'r gost a amcangyfrifir ar gyfer cyflogi staff diogelwch yn 2012-13?**

Dyma gyfanswm costau cyflogi staff diogelwch yn ystod pob blwyddyn:

| Blwyddyn | £ |
|---|---|
| 2009-10 | 1,694,119 |
| 2010-11 | 1,662,955 |
| 2011-12 | 1,556,877 |
| 2012-13 (cost a gyllidebwyd) | 1,706,485 |

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm .

Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych bryderon neu gŵyn ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn credu nad wyf wedi cymhwyso'r Cod yn briodol neu heb ddilyn y deddfau perthnasol, gallwch wneud cwyn ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd. Mae manylion egwyddorion cwynion y Cynulliad wedi'u gosod allan yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar y Fewnrwyd yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Cysylltwch â mi oes hoffech gopi wedi'i argraffu.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**